Digwyddiad Rhanddeiliaid ASB Cymru ar Gynnig y Comisiwn ar Wybodaeth am Fwyd, Canolfan MRC, Llandrindod – 2 Ebrill 2008

Cyflwyniad

1. Cynhaliwyd y digwyddiad rhanddeiliaid er mwyn esbonio'n fanylach cwmpas cynnig y Comisiwn oedd mewn cyfnod ymgynghori ac fel cyfle i gael barn benodol rhanddeiliaid Cymru ac felly llywio penderfyniadau polisi'r Asiantaeth a llinellau'r DU, cyn y trafodaethau yn nes ymlaen eleni.

Yn bresennol

2. Mynychodd tua 20 o randdeiliaid y digwyddiad gyda swyddogion gorfodi, manwerthwyr mawr a busnesau bach i gyd yn cael eu cynrychioli.

Fformat

3. Cadeiriodd Steve Wearne, Cyfarwyddwr, ASB Cymru y digwyddiad ac roedd y siaradwyr yn cynnwys:

Theresa Ekong, Pencadlys ASB
Hilary Neathey, ASB Cymru
Sarah Meredith, ASB Cymru

Cefndir

4. Dechreuodd Theresa Ekong drwy esbonio bod cynnig gwybodaeth am fwyd y Comisiwn a fabwysiadwyd ar 30 Ionawr 2008 yn cynnwys gwybodaeth am fwyd ym mhob cyfnod o'r gadwyn fwyd. Mae'n dod â labelu cyffredinol a labelu maeth ynghyd ar gyfer yr holl fwydydd sy'n cael eu pacio ymlaen llaw ac mae hefyd yn cynnwys y gofynion ar gyfer bwydydd sy'n cael eu gwerthu heb eu pacio ymlaen llaw (yn rhydd ac wedi eu pacio ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol). Y cynnig yw'r cam cyntaf yn y broses o drafod rheoliadau newydd a fydd yn uniongyrchol berthnasol mewn Aelod-wladwriaethau.

Nodau

5. Nodau'r cynnig yw symleiddio ac atgyfnerthu testunau presennol, tra'n sicrhau bod gan ddefnyddwyr ddigon o wybodaeth i wneud dewisiadau gwybodus. Mae cynnig y Comisiwn yn mabwysiadu dull egwyddorion sy'n rheoli gwybodaeth orfodol sy'n weddol debyg i'r egwyddorion labelu a ddatblygwyd gan y DU y llynedd, gyda'r nod o sicrhau bod gofynion gorfodol yn gymesur ac yn gytbwys.

Trafodaeth

6. Dilynodd sesiwn a oedd yn amlinellu cefndir a chynnwys y cynnig. Yna cafwyd sesiynau trafod materion allweddol yn canolbwyntio ar labelu maeth, eglurder labeli, labelu gwlad y tarddiad, bwydydd nad ydynt wedi eu pacio ymlaen llaw, gwerthu o bell a diodydd alcoholaidd. Roedd y drafodaeth yn fywiog gyda chyfranogiad llawn gan y rheiny a oedd yn bresennol a chafwyd nifer o sylwadau gwerthfawr a gaiff eu hadrodd fel rhan o ymateb Cymru i'r ymgynghoriad ar draws y DU.

Mae'r nodiadau canlynol yn cynrychioli'r pwyntiau allweddol a godwyd gan gynrychiolwyr o ganlyniad i bob un o'r sesiynau.

<u>Pwyntiau cyffredinol</u>

- Nododd y cynrychiolwyr y byddai disgwyliadau defnyddwyr yn wahanol yn dibynnu ar y math o gynnyrch, a holwyd felly a oedd cael yr un gofynion ar gyfer cynnyrch cymhleth a syml yn briodol. Pwysleisiwyd y dylai enw perchnogol y bwyd ac enw cyfreithiol y bwyd gael ei gyflwyno'n glir, waeth pa wybodaeth arall oedd yn ofynnol ar flaen y pecyn.

- Roedd angen mwy o eglurder ar nifer o ddiffiniadau yn y cynnig, er enghraifft, "blaen y pecyn", "maes gweledigaeth", a "phrif feysydd gweledigaeth".

- Roedd rhywfaint o bryder yn ymwneud ag os bwriad y cynnig yw safoni labelu bwyd ar draws yr Undeb Ewropeaidd, bod y cynlluniau cenedlaethol arfaethedig yn rhwystro'r nod cyffredinol hwn.

<u>Labelu Maeth</u>

- Tynnodd y cynrychiolwyr sylw at y ffaith bod y diffiniad o ffynonellau o ddata maeth dibynadwy yn y cynnig yn rhy rhagnodol. Byddai'n well gan y rheiny a oedd yn bresennol gael dull a oedd yn fwy seiliedig ar egwyddorion wrth gyfrifo gwerthoedd egni datganedig.

- Roedd y materion penodol a godwyd gan y cynrychiolwyr yr oedd angen eu cynnwys mewn deddfwriaeth neu arweiniad fel a ganlyn (i) y sylfaen ar gyfer cyfrifo cynnwys halen tybiedig o sodiwm; a (ii) sut i ddelio ag amrywioldeb tymhorol mewn cynnyrch naturiol fel mêl wrth ddyfynnu gwybodaeth gyfartalog am faeth.

Eglurder Labeli

- Roedd y cynrychiolwr yn teimlo ar y cyfan bod mwy i eglurder labeli na maint ffont yn unig (wedi ei ddisgrifio o ran maint print neu faint llwyr) ac nad oedd y rhan hon o'r cynnig yn ddigon seiliedig ar egwyddorion. Roedd gwybodaeth sydd yn glir, yn ddealladwy, ac yn weladwy i'r defnyddiwr wrth ei werthu yn allweddol, a chefnogwyd cyflwyno gwybodaeth trwy ei weld i gyd ar unwaith heb amhariad. Un dull a awgrymwyd byddai ymgorffori'r gofynion cyffredinol hyn i egwyddorion deddfwriaethol ac yna datblygu arweiniad gorfodol cefnogol, yn cyfateb o bosibl i ganllawiau'r diwydiant sy'n cael eu paratoi yn unol â deddfwriaeth hylendid bwyd.

- Dylid cymryd gofal wrth ddisgrifio cyferbyniad sylweddol ac roedd angen ystyried dallineb lliw.

Labelu Gwlad y Tarddiad

- Roedd angen mwy o eglurder ynghylch y sbardunau ar gyfer labelu gwlad y tarddiad ar wahân (yr enghraifft ffuglennol a ddefnyddiwyd mewn trafodaeth oedd iogwrt ciwi, lle byddai angen iddo honni, pe byddai labelu gwlad y tarddiad yn cael ei ddefnyddio, "gwnaed yng Nghymru o laeth Cymreig a'r ciwi wedi ei fewnforio o wledydd gwahanol"). Roedd dryswch penodol ynghylch ddiffiniadau prif gynhwysion, cynhwysion arwyddocaol ac ati a'u perthnasedd i labelu gwlad y tarddiad.

- Roedd cytundeb cyffredinol bod buddiannau defnyddwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar darddiad cig a chig mewn cynnyrch cig. Awgrymwyd y byddai rhoi gofynion mwy llym, ar wahân, yn ddull mwy cymesur yn yr amgylchiadau hyn – gan groesgyfeirio er mwyn cysondeb â deddfwriaeth bresennol a fertigol parhaus sy'n benodol i nwyddau fel yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer labelu cig eidion – gyda gofynion llai trwm ar gyfer cynnyrch eraill. Roedd pryder y dylai honiadau labelu gwlad y tarddiad fel "cynhyrchwyd yn yr UE" barhau i gael eu caniatáu er mwyn caniatáu ar gyfer cyrchu cynhwysion yn hyblyg.

- Codwyd mater milltiroedd bwyd. Yng nghyd-destun dull y cynnig yn seiliedig ar egwyddorion o reoli gwybodaeth ormodol am fwyd, efallai na fydd milltiroedd bwyd (eto) yn gymwys o dan y darpariaethau 'buddiannau'r mwyafrif' a byddai felly'n dymchwel pan fyddai un o'r meini prawf cyffredinol yn cael ei weithredu o ran penderfynu a ddylai fod yn destun labelu ar y pecyn. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau gwirioneddol presennol, fel wyau oedd yn cael eu dodwy yng Nghernyw ac yn cael eu cludo i Drefynwy ac yna'u cludo yn ôl i Gernyw i gael eu gwerthu fel "Wyau o Gernyw". Roedd pryder felly y gallai'r disgrifiad hwn fod yn gamarweiniol, o gofio pa mor bell yr oedd yr wyau wedi teithio cyn cael eu

gwerthu.

Bwyd sy'n cael ei werthu'n rhydd / Labelu alergeddau

- Roedd cefnogaeth eang i gadw'r darpariaethau cenedlaethol yn ymwneud â bwyd wedi ei bacio ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol a chytundeb cyffredinol ei fod yn ddigonol i fwyd o'r fath gynnwys label â'r isafswm gwybodaeth statudol.

- Ar labelu alergenau bwyd sy'n cael ei werthu heb ei bacio ymlaen llaw, roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer dull arfer gorau trwy arweiniad yn hytrach na dull labelu rhagnodol, fel yr argymhellwyd gan yr ASB a phartïon eraill â diddordeb fel Ymgyrch Anaphylaxis.

- Awgrymwyd y dylid cynnwys y cynhwysion oedd yn alergenaidd yn enw'r bwyd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yn y sector gwasanaeth bwyd lle nad yw disgrifiadau yn cynnwys gymaint o wybodaeth fel arfer ag enwau cyfreithiol.

- Cafwyd un awgrym, er mwyn cefnogi dull arfer gorau, y gallai fod gofyniad am hysbysiad statudol cyffredinol, yn gwneud pobl yn ymwybodol y gallai bwyd gynnwys alergenau a chymell pobl oedd â phryderon i ofyn am y cynhwysion mewn cynnyrch nad oeddent wedi eu pacio ymlaen llaw. Roedd eraill yn bryderus y gallai gofyniad o'r fath am hysbysiad statudol cyffredinol arwain at hysbysiadau'n cael eu hanwybyddu fel y rheiny ar gyfer bwydydd GM a bwyd arbelydredig.

- Roedd cefnogaeth ar gyfer darparu nodiadau arweiniad yr ASB mewn ieithoedd eraill i arlwywyr, fel y rheiny mewn siopau cludfwyd Indiaidd a Tsieinïaidd.

Gwerthu o Bell

- Cwestiynodd sawl cynrychiolydd y mater o wneud y rhestr arfaethedig o fanylion gwybodaeth am fwyd yn orfodol yn y man gwerthu ar gyfer gwerthu o bell. Mynegwyd pryder penodol ynghylch maint rhai cynhwysion neu gategorïau o gynhwysion sydd wedi ei ddileu o'r rhestr arfaethedig. Roedd y cynrychiolwyr yn teimlo bod hyn yn ddigon pwysig i ofyn amdano cyn prynu trwy werthu o bell am ei fod yn llywio'r penderfyniad ynghylch prynu.

- Roedd ffocws y drafodaeth ar werthu ar y rhyngrwyd er i sawl person bwysleisio bod angen i unrhyw ddarpariaethau cyfreithiol gydnabod dulliau eraill o werthu o bell fel dros y ffôn.

- Roedd rhai pryderon (nid rhai a rannwyd yn gyffredinol) am y baich a fyddai'n cael ei roi ar fusnesau bach a microfusnesau, yn enwedig busnesau cynnyrch wedi ei wneud â llaw sy'n tueddu i gynnwys llawer o ailadrodd busnes. Un ateb ar gyfer y fath fusnesau fyddai cael datganiad cyffredinol ar eu gwefannau neu lenyddiaeth gwerthu o bell yn dweud bod yr wybodaeth am gynhwysion, alergenau ac ati ar gael ar gais oddi wrth enw cyswllt penodedig.

- Codwyd y mater o fwydlenni cludfwyd oedd yn cael eu hanfon i gartrefi – am fod y rhain yn fwydydd oedd yn cael eu gwerthu trwy werthu o bell, ac yn fwyd oedd yn cael ei werthu heb ei bacio ymlaen llaw.

Crynodeb

Roedd yr adborth o'r diwrnod yn gyson gadarnhaol; croesawodd y cynrychiolwyr y cyfle i fod yn rhan o gyfnodau cynnar deddfwriaeth labelu bwyd arfaethedig newydd lle gall rhanddeiliaid ddylanwadu ar benderfyniadau polisi'r Asiantaeth a llinellau trafod y DU yn y dyfodol. Cadarnhaodd y rheiny oedd yn bresennol eu diddordeb mewn cyfarfodydd parhaus a gwahoddiadau i roi sylwadau ar y cynnig wrth iddo gael ei lunio ymhellach.